Ysgol Treganna

Cylchlythyr wythnosol



Wythnos yma

Gobeithiwn fod pawb wedi mwynhau gwyliau hanner tymor.Mae'n braf gweld yr ysgol yn brysur unwaith eto, ac rydym yn edrych ymlaen at hanner tymor cyffrous! Wrth i ni ddechrau'r hanner tymor newydd, hoffem eich atgoffa i gadw llygad ar y Cyswllt Wythnosol, sy'n cael ei anfon bob dydd Mawrth. Dyma'r ffordd orau o gael gwybod am ddyddiadau pwysig, digwyddiadau sydd ar y gweill, a'r gweithgareddau sy'n digwydd yn nosbarth eich plentyn.Diolch, fel bob amser, am eich cefnogaeth barhaus. Edrychwn ymlaen at hanner tymor llwyddiannus arall gyda'n gilydd.

Banc Bwyd

Hoffem estyn diolch o galon i bawb a gyfrannodd eitemau at ein casgliad ar gyfer y Banc Bwyd cyn gwyliau'r hanner tymor. Mae eich haelioni wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i deuluoedd lleol sydd angen cymorth ychwanegol yn ystod cyfnodau heriol.Mae banciau bwyd yn chwarae rhan hanfodol yn ein cymunedau drwy ddarparu bwyd a nwyddau hanfodol i unigolion a theuluoedd sy'n wynebu anawsterau ariannol. Mae'r galw am eu gwasanaethau yn parhau'n uchel, ac felly mae pob cyfraniad, mawr neu fach, yn cael effaith gadarnhaol.Diolch i'n disgyblion, rhieni a staff am gefnogi'r ymgyrch hon mor frwdfrydig!

Taclo'r Tywydd

Roedd pennod Ysgol Treganna o'r rhaglen Taclo'r Tywydd wedi cael ei darlledu ar S4C ddydd Llun, 2 Tachwedd am 5:20yh.Bu grŵp o'n disgyblion yn ymweld â'r stiwdio yng Nghaerdydd yn gynharach eleni i gymryd rhan yn y rhaglen, ac rydym yn hynod falch o'u brwdfrydedd, eu hyder a'r ffordd wych y buont yn cynrychioli'r ysgol. Mae wedi bod yn gyfnod hir o aros ers y ffilmio, felly rydym yn gyffrous iawn o'r diwedd i weld y rhaglen yn cael ei darlledu.Mae'r rhaglen ar gael i'w gwylio nawr ar S4C Clic a BBC iPlayer, gyda isdeitlau Saesneg ar gael. Mwynhewch!

Calendr

Caffi Darllen (Mwy o wybodaeth i ddilyn) 20.11.26

Cwpan Betsan

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi y bydd Cwpan Betsan Morris yn cael ei gynnal eto eleni, er cof am un o rieni annwyl cymuned Ysgol Treganna, Betsan Morris.

Bydd y twrnamaint pêl-droed 6 bob ochr ar gyfer merched Blwyddyn 5 a 6 yn cael ei gynnal ddydd Gwener 20 Tachwedd yng Nghanolfan Gôl, Caerdydd.

Mae'r digwyddiad wedi datblygu'n draddodiad arbennig sy'n dathlu cariad Betsan at chwaraeon ac yn rhoi cyfle i ferched ifanc fwynhau diwrnod o bêl-droed mewn awyrgylch cyfeillgar a chefnogol.

Bydd gwesteion arbennig megis Laura McAllister a Laura Wilkinson, a rhai o sêr tîm pêl-droed merched Cymru hefyd yn ymuno â ni eleni hefyd.



Edrychwn ymlaen at ddiwrnod gwych o chwaraeon, gwaith tîm a dathlu etifeddiaeth barhaol Betsan o fewn ein cymuned ysgol.

Cinio Ysgol

Dyma fwydlen cinio'r ysgol ar gyfer yr wythnos hon a'r wythnos nesaf. Diolch am eich amynedd a'ch dealltwriaeth ynghylch y problemau diweddar yn y gegin. Rydym wedi cael sicrwydd y bydd yr opsiynau canlynol ar gael.

Dydd Llun
Pasta Tomato a Basil
Bara Garlleg
Brocoli
Corn Melys
Opsiwn Tatws Pob

Dydd Mawrth
Cyri Cyw Iâr Korma
Korma Llysieuol
Reis
Moron
Blodfresych
Opsiwn Tatws Pob

Dydd Mercher
Selsig Porc a Chennin neu Selsig Llysieuol
Tatws Newydd
Pys
Corn Melys
Grefi
Opsiwn Brechdan
Opsiwn Pasta Tomato a Basil(oer)

Dydd Iau
Briwgig Sawrus mewn Pwdin Swydd Efrog neu Friwgig Llysieuol mewn Pwdin Swydd Efrog
Tatws Newydd
Pys
Moron
Opsiwn Brechdan

Dydd Gwener
Bysedd Pysgod neu "Nuggets" Llysieuol
Tatws Newydd
Ffa Pob
Pys
Opsiwn Brechdan

Rydym wedi cael gwybod y bydd y fwydlen hon mewn lle ar gyfer yr wythnos hon a'r wythnos nesaf. Os bydd unrhyw newidiadau pellach, byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted â phosibl.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Patrwm Iaith yr Wythnos

Hoffwn i gael…

Her

Fy hoff beth i yn y byd i gyd ydy…

Testun trafod yr wythnos

Pam bod ailgylchu yn bwwysig?

Cân yr Wythnos

Eden-Waw

Idiom/ Dihareb yr wythnos

Tri chynnig i Gymro